

GWAITH I GYNNAL YR IAITH.

Yn gyffredinol ymdriniaeth o ddefnydd y Gymraeg gan fusnesau, ac o werth y Gymraeg i fusnesau yw ffocws trafodaeth yn y maes yma ac o ganlyniad dyna sydd yn ymddangos yn bennaf mewn strategaethau iaith hyd yma. Nid oes yna ymdriniaeth o berthynas iaith ar strwythur economaidd. Hynny yw, sut mae sectorau o'r economi yn effeithio ar gynladwyedd neu ddirywiad iaith. Nid yw'r drafodaeth yn ymwneud â pherthynas iaith ar economi nac yn ymdrin â newidiadau yn yr economi ,strwythurau sectorau ,na natur cyflogaeth.

Fel y dywed adroddiad ar seminar ym Mhrifysgol Aberystwyth ar Y Gymraeg fel grym cymunedol ac economaidd. Cyfres Seminar y Gymraeg a Pholisi Cyhoeddus wedi'i threfnu gan Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru Prifysgol Aberystwyth, Gwanwyn 2014

*Wrth werthfawrogi bod y dasg o ystyried iaith ac economi yn un sylweddol gan fod y maes yn eang, dadleuwyd na lwyddwyd i **ddadelfennu'r maes** a dehongli'n ddigon clir beth sydd dan ystyriaeth wrth siarad am iaith ac economi. Ar un pegwn, gallai gynnwys popeth i'w wneud â'r iaith a phopeth i'w wneud â'r economi. Ar begwn arall, gallai gael ei gyfyngu i ddefnydd o'r Gymraeg yn y maes economaidd.*

Canlyniad y diffyg hwn yw rhes o gynlluniau a rhaglenni digyswllt heb fod yna strategaeth a chynllun gweithredu clir. Nid oes yna ddealltwriaeth o beth i ni yn ceisio ei gyflawni mewn maes lle mae un weithred yn gallu tanseilio un arall. Felly'r angen cyntaf yw llunio strategaeth sydd yn arwain at gynllun gweithredu gyda chanllaw ar gyfer ymyriadau clir sydd yn cwmpasu ac yn ymgysylltu gyda meysydd datblygu eraill mewn strategaeth iaith Gymraeg. Cydnabod yr anawsterau gan adnabod y cyfleoedd.

Drwy ei swyddogaethau datblygu economaidd mae angen i awdurdodau lleol fod yn glir ei amcanion yn y maes yma. Mae angen iddynt ddatblygu fframwaith a fydd yn sail i'r berthynas rhwng yr economi a'r iaith ar lefelau strategol a gweithredol.

Mae nifer o adroddiadau a pholisïau blaenorol a chyfoes wedi edrych ar yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd, naill ai'n uniongyrchol neu fel rhan annatod o'u cylch gorchwyl. **Nid oes yna brinder argymhellion ond mae yna brinder aruthrol o weithredu ar yr argymhellion hynny.**

Ond cyn mynd i drafod ymhellach rhai o'r adroddiadau ac yn bwysicach yr argymhellion, hoffwn droi at un sector i ddangos yr hyn sydd ymhlyg wrth y cwestiynau hyn.

Y sector Amaeth. Dyma'r sector sydd yn bwysig iawn yma yn Sir Gâr. Yn ôl cyfrifiad 1981 roedd 18,750 o Gymry Cymraeg yn gweithio yn y diwydiant. 8530 o ohonynt yn yr hen Sir Dyfed.

A'r sefyllfa erbyn 2001?

Y galwedigaethau pwysicaf o ran cyflogaeth dynion oedd y galwedigaethau masnachau crefftus (sy'n cynnwys ffermwyr): roedd 27% o'r dynion yn y galwedigaethau hynny yn gallu siarad Cymraeg.

A'r sefyllfa erbyn 2011?

Dyma a dywedodd Kevin Roberts yn ei adroddiad i Lywodraeth Cymru 'Adolygiad o Gadernid Ffermio yng Nghymru' Ionawr 2014

'Er nad yw'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn effeithio o reidrwydd ar gryfder ffermio, tynnwyd sylw yn "Datgloi Potensial yr Ucheldir", a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012, at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn ardaloedd traddodiadol yr ucheldir. Roedd hyn yn peri pryder hefyd i'r rhanddeiliaid y cefais gyfle i'w cyfarfod gan mai'r ucheldiroedd ar un adeg oedd cadarnleoedd yr iaith Gymraeg. Gallai dirywiad pellach yn strwythur cymdeithasol -economaidd yr ardaloedd hyn arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yno'.

Neges sydd wedi cael ei adlewyrchu yn ddiweddar gan yr Undebau amaethyddol yn wyneb heriau Brexit.

Pe buasem yn mynd ati i ddadansoddi cyflogaeth maes glo De Orllewin Cymru mi fyddai yna batrwm tebyg.

Felly o gydnabod pwysigrwydd sectorau o'r economi i gynaliadwyedd y Gymraeg mae yn ddealladwy ein bod yn ystyried rôl ymyriadau sy'n dylanwadu ar y sectorau hynny ac ar bolisiau perthnasol. Mae i strategaethau economaidd rôl ganolog wrth geisio arwain cyfeiriad ardaloedd a rhanbarthau.

Felly mae cyfloed gwaith yn allweddol i gynnal iaith.

Mae strategaethau economaidd a chynlluniau datblygu yn effeithio yn uniongyrchol ar benderfyniadau ar *'fynediad at gyfalaf ffisegol neu ariannol: lleoliad; rhwydweithiau trafndiaeth (datblygiad y Metro yn Ninas rhanbarth Caerdydd) rhwydweithiau chyfathrebu; (buddsoddiad band llydan cyflym ar draws Cymru) argaeledd eiddo; (adeilad newydd i SAC gwasanaethau busnes; lefelau buddsoddi cyhoeddus a phreifat'*

Mae'r rhain oll yn ffurfio natur ein cymdeithas, cyfloedd gwaith a natur ac iaith ein cymunedau. Iaith hyfyw ac economi sy'n ffynnu.

Mae'r cyd-berthynas honno wedi ei esgeuluso gan ymgyrchwyr a chynllunwyr iaith.

Mae hyn yn ein harwain ni i ofyn y cwestiwn sut mae'r ystyriaethau yma yn cael ei adlewyrchu mewn strategaethau diweddar? Hefyd sut y dylid craffu a dylanwadu ar y polisiau hynny? A sut mae amlinellu modelau o ddatblygu economaidd sydd yn normaleiddio'r iaith Gymraeg ac yn hyrwyddo ffyniant economaidd? Rhoddwyd sylw i hyn mewn nifer o adroddiadau. Adroddiadau sydd wedi edrych ar yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd, naill ai'n uniongyrchol neu fel rhan annatod o'u cylch gorchwyl.

Ymysg yr adroddiadau perthnasol diweddar dylid nodi fan hyn :

- **Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith, adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ran y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, Rhagfyr 2013**

Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen yn yr argymhellion i gynnig y dylid hybu datblygiad Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin fel dinas-ranbarthau. Noder fod datblygiad economaidd a thynged y Gymraeg yn gydberthynas gwbl hanfodol. **Gellir dadlau fod**

newidiadau economaidd lawn mor ddylanwadol yn y tymor hir ag unrhyw ymdrechion gan lywodraethau'r dydd i atal neu i hybu ieithoedd llai eu defnydd.

Anodd yw deall, felly, ar un wedd pam mae'r ymchwil a'r dystiolaeth am y cyswllt rhwng iaith ac economi yn dal yn fylchog. Y gwir amdani fod cynllunwyr iaith wedi esgluso'r maes.

Mae'r adroddiad yn argymhell y dylid sefydlu grŵp gweithredu fydd yn gweithio i lunio strategaeth a gweithredu cynllun datblygu newydd ar gyfer ardaloedd Bangor, Caerfyrddin ac Aberystwyth a fydd yn asio adfywiad economaidd a gwelliannau seilwaith gyda thwf ieithyddol.

• Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog, adroddiad y Gweithgor ar yr iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol (Mehefin 2016)

"... dylai strategaeth ieithyddol economaidd roi'r pwyslais a'r ffocws ar gynyddu'r cyfalaf cymunedol sy'n bodoli, yn hytrach na dibynnu yn ormodol ar ddenu gwaith a swyddi o'r tu allan. Yn hynny o beth, mae'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd trigolion cymunedau yng Nghymru yn rhan gynhenid o'r 'cyfoeth, creadigrwydd a'r sgiliau' y maent yn gallu eu cynnig."

Nodwyd nifer o argymhellion i sylw Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rôl Llywodraeth leol fel hwylusydd datblygu economaidd i gefnogi'r iaith Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar ystod eang o waith ymchwil academaidd. Un o'r prif gasgliadau yw y dylai strategaeth economaidd Awdurdodau Lleol yn gyffredinol ganolbwyntio ar ffactorau mewnol yn hytrach nag ar ffactorau allanol. Yn y bôn, nid yw'n talu i un Awdurdod gystadlu yn erbyn Awdurdodau eraill i ddenu buddsoddiad ar draul datblygu cyfalaf cynhenid yr ardal, sef y cyfoeth, y creadigrwydd a'r sgiliau lleol. Mae cyfalaf allanol yn rhy wamal and yn rhy barod i fynd i ffwrdd pan fydd amgylchiadau yn newid. Mae hyn yn awgrymu y dylai strategaeth ieithyddol economaidd roi'r pwyslais a'r ffocws ar gynyddu'r cyfalaf cymunedol sy'n bodoli, yn hytrach na dibynnu yn ormodol ar ddenu gwaith a swyddi o'r tu allan. Yn hynny o beth, mae'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd trigolion cymunedau yng Nghymru yn rhan gynhenid o'r 'cyfoeth, creadigrwydd a'r sgiliau' y maent yn gallu eu cynnig.

• Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg

Mae'r strategaeth hon yn disodli iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17 a'r datganiad polisi cysylltiedig, iaith fyw: iaith byw - Bwrw mlaen. Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn nodi dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dyma ddywed yr adroddiad:

"Mae ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn parhau i fod wrth galon ein gweledigaeth. Dyma'r lleoedd yng Nghymru sy'n creu'r hinsawdd fwyaf ffafriol ar gyfer meithrin siaradwyr Cymraeg: po fwyaf yw nifer y siaradwyr sy'n byw mewn ardal ddaearyddol, po fwyaf yw'r tebygolrwydd fod ganddynt gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith wrth gyfathrebu o ddydd i ddydd. Dyma hefyd y manau sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr sy'n rhugl eu Cymraeg. Yr hyn sy'n tueddu i nodweddu'r ardaloedd hyn yw eu bod yn wledig eu

natur, a bod eu heconomiâu yn dibynnu i raddau helaeth ar y sector cyhoeddus, amaethyddiaeth a thwristiaeth, gyda threfi sy'n ganolfannau i ddarparu gwasanaethau a swyddi i ardaloedd eang. Nid oes ateb hawdd i'r heriau sy'n wynebu cymunedau fel y rhain. Er hynny, rydym yn bendant ynghylch yr angen i'r gwaith mewn perthynas â chynllunio ieithyddol a datblygu economaidd fynd law yn llaw â'i gilydd, er mwyn creu cymunedau Cymraeg sy'n hyfyw yn economaidd ac yn ieithyddol."

"I gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg, datblygu eu hyder i wneud hynny, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn amryw o leoliadau, mae angen adnoddau digidol, cyfryngau iach ac amrywiol... "

"...mae'n ddyletswydd ar y Llywodraeth i hybu twf economaidd a lledaenu ffyniant ar draws Cymru. Ni allwn ddisgwyl i gymunedau Cymraeg aros yn statig tra bo natur cymdeithas yn newid. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn pwysigrwydd datblygu economi ffyniannus, gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig..."

"Ein nod: cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg."

- **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021**, rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf (Medi 2016) -)

"...rydym yn bendant ynghylch yr angen i'r gwaith mewn perthynas â chynllunio ieithyddol a datblygu economaidd fynd law yn llaw â'i gilydd, er mwyn creu cymunedau Cymraeg sy'n hyfyw yn economaidd ac yn ieithyddol."

- **Ffyniant i Bawb: Y cynllun gweithredu ar yr economi (Llywodraeth Cymru 2017**

"Mae dyfodol ein cymunedau Cymraeg eu hiaith a'n heconomi ranbarthol yn mynd law yn llaw. Bydd economïau lleol ffyniannus yn ein helpu i gyrraedd ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd swyddi o ansawdd da a rhanbarthau sy'n fannau deniadol i weithio, i fyw ac i fuddsoddi ynddynt, yn rhoi rheswm i bobl aros neu ddychwelyd i weithio ac i fyw mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Os yw'r Gymraeg yn ffynnu, mae hynny'n helpu busnesau i dyfu ac yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i ddatblygu'r economi yn y rhanbarthau."

Beth felly am Sir Gâr?

- **Y Gymraeg yn Sir Gâr, adroddiad gan Weithgor y Cyfrifiad i Gyngor Sir Caerfyrddin, Mawrth, 2014**

Gwelwyd ymdriniaeth ar y testun yma yn adroddiad Gweithgor Sir Gaerfyrddin ar yr iaith.

'Mae darparu isadeiledd cymunedol cadarn er mwyn galluogi a chefnogi hyfywedd ein cymunedau yn allweddol. Yn ogystal ag adeiladu sylfaen gymunedol gadarn a chyfleoedd cymdeithasol da mae sicrhau economi lewyrchus a swyddi o safon i bobl leol yn gwbl allweddol i hyn. Heb y cyfleoedd hyn ni fydd yn bosib i'n pobl ifanc aros yn y sir'.

Mae'r cydberthynas rhwng yr iaith ac economi hefyd yn ffactor. Nodwyd ynghynt fod y system addysg yn Sir Gaerfyrddin yn llwyddo i gynhyrchu siaradwyr Cymraeg ond dengys yr

ystadegau **mai siaradwyr Cymraeg dros dro yn unig yw'r rhain ac nad yw'r iaith yn cael ei chynnal yn y sir y tu hwnt i ddyddiau ysgol.**

Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r llif cyson hwn o bobl ifanc yn gadael y sir mae'n rhaid mynd ati i greu cyfleoedd gwaith a swyddi lleol er mwyn galluogi ein pobl ifanc i aros yn yr ardal. Bydd galluogi pobl ifanc, sy'n bennaf yn siaradwyr Cymraeg, i aros yn eu cymunedau lleol yn gwbl allweddol os oes unrhyw gyfle i adeiladu ar y cymunedau hyfyrw sydd gennym yn Sir Gaerfyrddin. **Mae angen cynllunio datblygu economaidd bwriadus er mwyn cynyddu'r cyfleoedd hyn i'r dyfodol.**

Mae sefydlu Dinas Rhanbarth Bae Abertawe yn gyfle da i brif-ffrydio'r Gymraeg yng nghynlluniau datblygu economaidd i'r dyfodol. Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfle unigryw o fewn y Ddinas Ranbarth i sefydlu ei hun fel canolfan fusnes dwyieithog a fydd nid yn unig yn gweinyddu poblogaeth ddwyieithog y sir a chreu profiad dwyieithog unigryw i ymwelwyr ond hefyd yn medru darparu cyfleoedd a bywoliaeth i weithlu dwyieithog a fyddai'n atgyfnerthu buddsoddiad y Cyngor Sir mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Wrth feddwl am gyd-destun y polisiau yma, mae modd dadlau, ar un llaw, fod popeth sy'n gysylltiedig â datblygu economaidd yn berthnasol i'r Gymraeg ac yn effeithio ar yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar yr iaith. Ar y llaw arall, mae modd cyfyngu'r cysylltiad i ddefnydd o'r iaith mewn sefyllfaoedd economaidd. Nid yw'r naill na'r llall yn ddigonol.

Yr hyn sydd ei angen yw nodi'r meysydd hynny ble mae'r gorgyffwrdd pennaf rhwng sicrhau buddion economaidd ac ieithyddol - i unigolion, i fusnesau, i 'gymunedau' ac ardaloedd, i sefydliadau yn ogystal ag i Gymru'n gyffredinol.

Mae'r ystod o feysydd ble mae modd nodi elfennau penodol a fyddai'n creu buddion a manteision ieithyddol ac economaidd ar y cyd yn cynnwys:

- cyflogaeth, datblygu sgiliau, cysylltu pobl â swyddi, meysydd gwaith penodol;
- mentergarwch, datblygu busnes (yn gyffredinol ac o fewn sectorau penodol);
- arloesedd (yn yr ystyr eang);
- datblygiadau digidol;
- adfywio a lleihau anweithgarwch economaidd;
- datblygu cyfleoedd masnachol yn uniongyrchol;
- ffocws ar bobl ifanc yn symud;
- marchnata - ardaloedd a busnesau;
- defnydd iaith mewn cyd-destun masnachol;
- polisi ac ymddygiad sefydliadau sector gyhoeddus (cynllunio, caffael, amodau cytundebu, ac ati)

Felly beth sydd angen?

Dyma rai o argymhellion o adroddiad a baratowyd yn 2014 ar gyfer y Cyngor Sir.

NOD: I brif ffrydio datblygiad yr iaith Gymraeg fel rhan ganolog o unrhyw gynlluniau datblygu economaidd o fewn Sir Gaerfyrddin

ARGYMHELLION:

Bod y Cyngor Sir yn gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth y sector breifat o'r manteision economaidd sy'n deillio o weithredu'n ddwyieithog yn Sir Gâr gan adeiladu cyfleoedd i ddatblygu gweithluoedd dwyieithog o fewn sectorau penodol e.e. hamdden, twristiaeth, diwydiannau creadigol, bwyd-amaeth, addysg feithrin.

Bod y Cyngor Sir, trwy'r Rhwydwaith 14-19 yn datblygu cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaethau cyfrwng Gymraeg o fewn y gweithle i bobl ifanc gan gynyddu'r galw a'r gallu i'r sector breifat, gyhoeddus a gwirfoddol i weithredu yn ddwyieithog.

Bod y Cyngor Sir yn gweithio gyda Gyrfa Cymru trwy'r Rhwydwaith 14-19 i hyrwyddo anghenion y sector breifat o ran sgiliau dwyieithog.

Bod y Cyngor Sir yn gweithio gyda phartneriaid lleol er mwyn sicrhau bod S4C yn adleoli i Gaerfyrddin gan ddefnyddio'r datblygiad posibl hwn i adeiladu ar apêl Sir Gâr i gyrff a busnesau eraill yn y diwydiannau creadigol.

Bod y Cyngor Sir yn sicrhau prif ffrydio'r Gymraeg yng nghynlluniau datblygu economaidd rhaglen Ddinas Ranbarth Abertawe ac yn enwedig wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer prif drefi Sir Gaerfyrddin

Argymhellion i Fforwm Gwaith i Gynnal yr Iaith:

1. Drwy ei swyddogaethau datblygu economaidd mae angen i'r Cyngor Sir ddatblygu fframwaith a fydd yn sail i'r berthynas rhwng yr economi a'r iaith ar lefelau strategol a gweithredol.

Bydd angen:

- data perthnasol
- dadansoddiad o'r meysydd hynny ble mae'r gorgyffwrdd pennaf rhwng sicrhau buddion economaidd ac ieithyddol i unigolion. Hyn, ochr yn ochr â'r busnesau, cymunedau ac ardaloedd
- gosod seiliau mesur ac asesu
- system i brofi ac adolygu ymyriadau
- adnoddau addas ar gyfer gwneud y gwaith
- amserlen cyflwyno y fframwaith

2. Bod y Cyngor Sir yn craffu yn fanwl ar argymhellion adroddiad gan weithgor Cyfrifiad Mawrth 2014 ac argymhellion adroddiad iaith, Gwaith a Gwasanaethau ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol Mehefin 2016 gyda golwg ar eu cynnwys mewn rhaglen waith wrth ddatblygu fframwaith iaith ac economi.

3. Bod y Cyngor Sir gyda'i ymwymiad i raglen ARFOR yn mabwysiadu argymhellion 1 a 2 wrth baratoi rhaglen weithredol.

4 Bod y Cyngor Sir yn ei gwaith gyda bargaen dinesig Bae Abertawe yn sicrhau bod cyfran o'r gyllideb yn cael ei glustnodi yn benodol i'r maes yma.

5. Bod y Cyngor Sir yn buddsoddi adnoddau i ddenu mwy o swyddi allan o'r De Ddwyrain gyda golwg ar sgiliau dwyieithog y Sir.